Mynediad at Waith

Yn gwneud gwaith yn bosibl



Adran Gwaith a Phensiynau

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Beth yw Mynediad at Waith?

Mae Mynediad at Waith yn cefnogi pobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd i ddod o hyd i waith, neu aros mewn gwaith.

Grant sy'n ddibynnol ar y galw yw Mynediad at Waith. Mae'n darparu cymorth i bobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd. Y nod yw eu helpu i ddod o hyd i waith neu aros mewn gwaith.

Mae'n rhoi cyngor a chymorth i unigolion a chyflogwyr am: y costau ychwanegol ynghlwm wrth weithwyr cymorth, cynorthwyon ac addasiadau, teithio ac ati – pethau sydd y tu hwnt i addasiadau safonol.*

Fel cyflogwr fe allech chi fod yn colli cyfle i gyflogi rhywun sydd â sgiliau pwysig. Dyma rai rhesymau y gallai cyflogi pobl anabl eich helpu ...

Cynyddu cynhyrchiant: Gall gweithlu amrywiol ddod o hyd i ddatrysiadau gwell i'r heriau sy'n wynebu busnes, gan ganolbwyntio ar gryfderau a gallu.

Gwella gwasanaethau: Gall gweithlu gynhwysol ddod â sgiliau a gwybodaeth newydd i'ch busnes, gan eich galluogi i ddarparu gwasanaethau gwell i'ch cwsmeriaid.

Rhoi hwb i forâl y staff: Bydd staff cyfredol a darpar staff yn gallu gweld bod eich sefydliad yn cefnogi ei staff.

Cryfahau timau gwaith: Fel bod pob aelod o staff yn gwybod beth yw gweithlu cynhwysol, a sut mae chyflawni hynny.

Mynediad at fwy o dalent: Gallai hyrwyddo'ch polisïau anabl gyfeillgar cynhwysol fel rhan o'ch proses recriwtio ddenu ymgeiswyr gwell.

**Nid yw Mynediad at Waith yn effeithio ar ddyletswydd cyflogwr o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.*

Cymhwysedd

Mae Mynediad at Waith ar gael yn y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n rhoi cyngor a chymorth ymarferol i bobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd ac sydd wedi'u cyflogi, yn hunangyflogedig neu ar fin dechrau gweithio.

- Gall swyddi fod yn rhan-amser neu'n llawn–amser, yn rhai dros dro neu barhaol.
- Mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar i gynnwys pobl anabl ar hyfforddeiaethau, interniaethau â chymorth, treial gwaith neu brofiad gwaith.
- Ni all ymgeiswyr gael grant ar gyfer gwaith gwirfoddol.
- Rhaid i ymgeiswyr fod dros 16 oed.
- Rhaid i ymgeiswyr fyw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.

Gwneud cais

Unigolion sy'n gyfrifol am wneud cais y gellir ei wneud ar-lein neu dros y ffôn.

- Bydd angen sicrhau bod ganddynt unrhyw waith papur perthnasol yn barod pan fyddant yn cysylltu. Hynny yw, cyfeiriad a chod post y gweithle, enw cyswllt yn y gweithle a manylion cyswllt y gweithle.
- Bydd angen iddyn nhw esbonio hefyd sut mae eu cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnyn nhw yn y gwaith neu wrth gyrraedd y gwaith, pa gymorth y gallen nhw fod yn ei gael eisoes, a beth arall allai eu helpu.
- Bydd yn helpu gyda'u cais os ydynt wedi siarad â chi (y cyflogwr) am addasiadau rhesymol cyn iddynt wneud cais Mynediad at Waith.

A wyddoch fod y rhan fwyaf o bobl anabl yn cael eu hanabledd tra'u bod mewn cyflogaeth?

Gall Mynediad at Waith eich helpu i gadw gweithwyr sy'n fedrus, yn ffyddlon ac yn gweithio'n galed.

Am fwy o wybodaeth, ewch i **gov.uk/mynediad-at-waith** neu ffoniwch llinell gymorth Mynediad at Waith ar **0800 121 7479**

Gall busnesau Cymru hefyd gysylltu â llinell gymorth Busnes Cymru llinell gymorth ar **03000 6 03000** neu chwiliwch **Porth Sgiliau i Fusnes**